| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 2. Dadansoddi a Chysylltu (CA2) |
| Disgrifiad: | Darllen - Cysylltu'r testun a digwyddiadau â’u profiadau eu hunain, â thestunau eraill ac â'r byd o'u cwmpas. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd**<br>*Darllen a deall:<br>Bl3:<br>• cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol.<br>BL4 :<br>• archwilio gwybodaeth a syniadau'r tu hwnt i'w profiadau personol.<br>Bl5:<br>• adnabod ac archwilio syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt.<br>Bl6:<br>• adnabod syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt i ddatblygu dealltwriaeth bellach.<br><br>*Ymateb a dadansoddi:<br>Bl3:<br>• defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu, gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddarllen a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod a'i gredu am y pwnc.<br>Bl4:<br>• dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau.<br>Bl5:<br>• dehongli'r hyn y mae awdur yn ei feddwl am y pwnc.<br>Bl6:<br>• cydgasglu a gwneud cysylltiadau<br>• ystyried a yw testun yn effeithiol i gyfleu gwybodaeth a syniadau. |

| | |
|---|---|
| Testun Dylan Thomas | A Visit to Grandpa's<br>Darn o ddechrau tudalen 33 (*...into the fields on Llanstephan Road.)* |
| Offer angenrheidiol: | • Copïau o'r testun<br>• Gwyntyll cysylltiadau: cysylltu'r Testun â Mi fy Hun/â Thestun/â'r Byd *Atodiad 1*<br>• Taflenni gwaith *Atodiad 2*<br>• Gweithgaredd estyn, Llyfrau stori a lluniau' - (e.e. llyfrau Martin Morgan am dad-cu sy'n dipyn o gymeriad, e.e. *Tad-cu Ddwywaith,* Y Dref Wen); *Beic Sigledig Tad-cu,* Colin West, Gomer; *Nain, Nain, Nain,* Siân Eirian Rees Davies, Gomer; *Codi Calon Tad-cu,* Diana Hendry, Gwasg Gomer; *Llio! Beth yw'r Haf i Mi?* Addas. Alun Ceri Jones, Dalen. Gyda Bl6, gellid defnyddio'r gyfrol *Taid/Tad-cu*, Gwasg Gwynedd i ddarllen ambell bortread gan awduron) |
| Trefn a awgrymir: | • Ewch yn ôl at y testun a chrynhoi'r digwyddiadau allweddol yn y stori.<br>• Trafodwch y cysylltiadau y gall y disgyblion ddod o hyd iddyn nhw fel dosbarth gan ddefnyddio'r gwyntyll cysylltiadau. (*Atodiad 1*)<br>• Dechreuwch gyda 'Y Testun â Mi fy Hun' a dangoswch rai syniadau ar y bwrdd gwyn i helpu i annog meddwl. (Ydy e'n eich atgoffa chi am eich Neiniau/Teidiau/Modrybedd/Ewythrod? Sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n aros yn nhŷ rhywun arall? Allwch chi feddwl am gyfnod pan ddeffroch chi yng nghanol y nos oherwydd breuddwyd ryfedd?<br>• Yna mae'r dysgwyr yn llenwi eu taflenni gwaith 'Y Testun â Mi fy Hun' (*Atodiad 2*) |
| Gweithgareddau estyn: | 'Y Testun â Thestun' - Cymharu â llyfrau stori a llun am berthynas â Thad-cu neu Fam-gu/Taid neu Nain. Ceir awgrymiadau am lyfrau stori a lluniau uchod.<br><br>Defnyddio'r cyfryngau digidol: Gan ddefnyddio aps *iMovie* neu *Book Creator*, gallai'r dysgwyr eu ffilmio eu hunain yn siarad am y cysylltiadau y maen nhw wedi'u gwneud. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Gwahaniaethu yn ôl hyd y testun a ddefnyddiwyd. Efallai y gall Blynyddoedd 3 a 4 ddarllen hyd at t.33 yn unig (*I thanked him and wished him good night*.). Neu gellir gwahaniaethu yn ôl nifer y gwyntyll a ddefnyddiwyd. |